Sbort gyda sbwriel

Trosolwg

Mae rhywbeth sy'n ddi-werth i un person yn werthfawr i berson arall. Ac mae hynny'n arbennig o wir am offer chwarae. Beth am greu rhestr o eitemau i'w cadw a'u hailgylchu ar gyfer chwarae?



Gweithgareddau

Y peth gwych am sothach, wrth chwarae â darnau rhydd, yw'r eiliad y bydd plant yn rhoi pwrpas newydd i eitem gyfarwydd. Gall crât bara droi'n bont i groesi dyfroedd llawn o angenfilod y môr. Gall pibell ddyfrhau droi'n llwybr troellog i fyd newydd o hud a lledrith. Gofynnwch i rieni, gofalwyr a busnesau lleol roi eitemau, neu ewch i storfa sgrap neu ganolfan ailddefnyddio leol. Mae'r math hwn o chwarae'n anniben, yn greadigol ac yn llawn posibilrwydd, ac mae'n annog y plant i adrodd stori, datrys problemau a chydweithio.

Offer

Bach: Potiau planhigion, hen boteli, stribedi o liain, rhidyllau (maent yn ffordd wych o greu llygaid pryfed!), pegiau, hen ffonau
Canolig: Topiau cadeiriau (heb y coesau), tiwbiau hir o gardbord, siwtcesys
Mawr: Cratiau bara, drymiau peiriannau golchi dillad, olwynion ceblau

Cwestiynau allweddol

Sut/Pam y gwnaethoch ddewis hwnna?
Beth gallwch ei ychwanegu i'w wneud yn fwy/yn well?
Mae'n wych. Alla i helpu?

Deilliannau dysgu

Bydd gadael i blant ddewis eu heitemau a meddwl am eu ffordd eu hunain o ddefnyddio'r 'sothach' yn hybu sgiliau cyfathrebu cadarn, cydweithio a'r dychymyg. Os oes ymgysylltu dwfn yn digwydd, gadewch i'r plant ddychwelyd drannoeth ac wedyn i ddatblygu eu bydoedd sydd wedi'u creu o sothach.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Deall maint, pwysau a chydbwysedd. 'A yw'r eitemau yna'n mynd i aros yn eu lle os ydynt yn cael eu pentyrru yn y drefn yna?'
- Datblygiad corfforol: cydbwysedd, sgiliau echddygol manwl a bras, cryfder.